

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward B2, Ysbyty Cwm Rhondda,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Ebrill 2024

Dyddiad cyhoeddi: 12 Gorffennaf 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-342-6

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ward B2 yn Ysbyty Cwm Rhondda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 11 a 12 Ebrill 2024. Adolygwyd y ward ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward B2 - 27 o welyau yn darparu gwasanaethau gofal ac adsefydlu uwch.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael. Gwelsom for amrywiaeth o ffyrdd y gallai'r cleifion ddarparu adborth. Fodd bynnag, ni ddangoswyd enghreifftiau o adborth neu pa welliannau a wnaed o ganlyniad i hyn.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a'u bod wedi gwneud ymdrech ar y cyfan i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas wrth ddarparu gofal.

Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y cleifion yn cael gofal da a gwelsom fod y staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r cleifion am gymorth.

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd i'w gweld. Fodd bynnag, nid oedd polisi Gweithio i Wella y GIG yn cael ei arddangos ar y ward.

Darparwyd amrywiaeth o opsiynau bwyd i gleifion a gafodd eu newid i sicrhau nad oedd y cleifion yn cael yr un pryd fwy nag unwaith yn ystod y dydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos adborth i gleifion fel bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni.
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y polisi Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar y ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd
- Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ac ar gael yn y Gymraeg
- Gwelsom y staff yn annog y cleifion i symud.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel

ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod y system cloch alw nyrsys wedi torri ac nad oedd y system ddisodli yn addas i'r diben.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo. Roedd y wardiau yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio. Fodd bynnag, nid oedd yr olchfa wedi bod yn gweithio am wythnos cyn ein hymweliad.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gwirio manylion adnabod y cleifion yn rheolaidd cyn rhoi meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd o broses interim i sicrhau diogelwch y cleifion wrth i system larwm barhaol gael ei phrynu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr olchfa'n cael ei thrwsio'n brydlon
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwirio dull andabod y cleifion cyn rhoi meddyginiaeth
- Dylai'r bwrdd iechyd roi system ar waith i sicrhau bod y blwch sepsis a'r blychau argyfwng eraill yn cael eu stocio'n briodol i'w defnyddio mewn achos o argyfwng.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo
- Gwelsom brosesau cadw cofnodion cynhwysfawr
- Gwelsom fod y ward yn lân ac yn daclus gyda systemau priodol ar waith i atal a rheoli heintiau

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir wedi eu disgrifio a'u hamlygu.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system archwilio i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ar y wardiau. Gwelsom fod y trefniadau ansawdd a diogelwch ar y wardiau yn briodol.

Roedd gan y bwrdd iechyd raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr ac roedd cydymffurfiaeth y staff yn dda.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r staff oedd ar gael wedi cael arfarniad diweddar.

Dywedwyd wrthym fod nifer isel o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig ac roedd y sefydliad staff bron yn llawn. Fodd bynnag, roedd y defnydd o staff banc ac asiantaeth yn parhau i fod yn uchel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei ddefnydd o staff asiantaeth a banc.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythur rheoli addas ar waith gyda lefelau cymorth priodol
- Roedd cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar lefel briodol
- Roedd y mwyafrif o'r staff wedi cael arfarniad diweddar.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gwych. Dim sylwadau”

“Popeth yn iawn. Dim cwynion.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Nid yw'r gloch yn gweithio”

“Nid yw'r gloch yn cael ei defnyddio”

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gleifion a pherthnasau roi adborth. Fodd bynnag, ni ddangoswyd enghreifftiau o hyn na'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i adborth.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd arddangos adborth i gleifion ac unrhyw welliannau a wnaed o ganlyniad i adborth, fel bwrdd “dywedoch chi, gwnaethom ni”.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn dilyn y polisi Gweithio i Wella ar gyfer unrhyw gwynion a wneir. Fodd bynnag, ni welsom fod y polisi Gweithio i Wella wedi'i arddangos ar y ward.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y polisi Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar y ward.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a thafleuni yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ward, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog. Roedd gwybodaeth yn

cael ei harddangos am hylendid dwylo, rheoli heintiau, dementia, iechyd a llesiant.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelwyd bod y staff yn darparu gofal mewn ffordd gwrtais a pharchus. Gwelwyd bod yr amgylchedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd baeau'r wardiau yn cynnwys un rhywedd a gwelwyd bod y cloeon ar ddrysau'r toiledau yn gweithio. Roedd y cleifion yn ymddangos yn lân, yn daclus ac roeddent yn gwisgo eu dillad eu hunain. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion nad ydynt yn gweld ymwelwyr yn rheolaidd yn gallu cael gafael ar ddillad glân.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn trafodaeth â'r cleifion ar y cyfan ac mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau unigol.

Roedd trafodaethau amlddisgyblaethol da yn cael eu cynnal yn ystod rownd bwrdd ynghylch anghenion y cleifion.

Gwelsom fod dymuniadau'r cleifion mewn perthynas ag adfywio pe byddai angen ystyried hynny yn cael eu trafod â nhw a chynrychiolwyr penodol o'r teulu. Cafodd dogfennaeth Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) ei chwblhau yn ôl yr angen.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt. Gwelwyd bod y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy ddulliau arsylwi cyffredinol. Fodd bynnag, roedd y system cloch alw i gleifion wedi torri ac roedd system gludadwy wedi'i rhoi ar waith. Nodwyd gennym nad oedd digon o systemau cludadwy ar waith ar gyfer pob claf a gall fod wedi arwain at oedi wrth ddiwallu anghenion cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cyflawni gwiriadau rheolaidd ar gleifion sydd heb fynediad i gloch alw.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio. Gwelwyd bod y cyfathrebu yn anogol ac yn gynhwysol.

Roedd rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gall cleifion y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg wneud hynny. Caiff yr aelodau o staff hyn eu hadnabod yn ôl y bathodyn iaith Gwaith sydd wedi'i wnïo yn eu gwisg. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod prinder o'r gwisgoedd hyn a bod y siaradwyr Cymraeg wedi cael bathodynau pin i'w gwisgo yn lle hynny.

Nodwyd arwyddion clir gennym drwy'r ysbyty ac ar y ward. Dangoswyd manylion a ffotograffau'r rheolwyr yn y brif fynedfa i'r ward ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer pob un.

Gwelsom fod dolen sain ar gael yn yr orsaf nyrsys i'w defnyddio gyda chleifion sy'n gwisgo cymhorthion clyw.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd y ward ar y llawr cyntaf, ac roedd modd ei gyrraedd drwy ddefnyddio lifft. Roedd drysau a choridorau llydan a dirwystr ar y ward. Gwelsom fod y ward yn hygyrch i'r cleifion â phroblemau symudedd.

Gwelsom y staff yn rhyngweithio'n garedig a pharchus â'r cleifion a chadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo hawliau'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod angen ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn aml ar gleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gwelsom fod gwybodaeth y staff am brosesau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn briodol. Gwelsom ffeil gynhwysfawr gyda manylion cleifion o dan broses y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a oedd yn cynnwys dyddiadau adnewyddu a chefnogwyd hyn gan system ddigidol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y system galw nyrsys yn gweithio ac roedd system gludadwy wedi bod ar waith dros dro wrth iddynt aros am system newydd. Nid oedd digon o glychau galw cludadwy ar gyfer pob claf a oedd yn golygu bod rhai cleifion yn methu galw am nyrs os oedd angen. Ni chawsom sicrwydd fod y system a oedd ar waith yn addas at ddiben rhybuddio staff mewn achos o argyfwng neu os oedd angen cymorth ar gleifion. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses Sicrwydd ar Unwaith. Ceir manylion y pryderon hyn yn [Atodiad B](#).

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Gwelsom fod blychau argyfwng ar gael y gellid mynd atynt yn brydlon yn ystod argyfwng. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llawer o stoc yn y blwch sepsis ac nid oedd yn briodol i'w ddefnyddio.

Dylai'r bwrdd iechyd roi system ar waith lle y caiff blychau argyfwng eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau bod ganddynt y cyfarpar priodol mewn achos o argyfwng.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd y ward yn lân ac yn daclus iawn. Roedd cyfarpar yn cael ei lanhau rhwng defnydd gan y cleifion ac yn cael ei osod mewn storfeydd dynodedig. Gwelsom fod matresi a gwelyau'n cael eu glanhau ar ôl i gleifion eu defnyddio ac roeddent yn cael eu harchwilio'n wythnosol. Gwelsom fod staff glanhau i'w gweld ar y wardiau yn ystod yr arolygiad. Gwelwyd bod ardal y ward mewn cyflwr da ac roedd y dodrefn yn golygu bod modd eu glanhau'n effeithiol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol a gel dwylo ar gael drwy'r ward a gwelwyd y staff yn ei ddefnyddio'n briodol. Gwelsom ddulliau ynysu addas ar y ddwy ward. Dywedwyd wrthym pe bai angen ynysu claf er mwyn hwyluso gwaith atal a rheoli

heintiau, byddai un o'r ciwbiclau yn cael ei ddefnyddio i gyflawni gwaith nyrsio ataliol.

Diogelu plant ac oedolion

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu. Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff y gallai'r staff gysylltu ag arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd i gael cyngor ar faterion diogelu.

Roedd hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Ystyriwyd bod y cyfraddau cydymffurfio yn briodol.

Rheoli gwaed

Nodwyd gennym fod trefniadau caeth ar waith i sicrhau bod cynhyrchion gwaed yn cael eu rhoi'n ddiogel ar y ddwy ward. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r broses gywir o roi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol mewn cysylltiad â chynhyrchion gwaed.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y broses o roi a monitro cynhyrchion gwaed, gan gynnwys gwiriadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod cofnod o'r holl staff sy'n gymwys i roi cynhyrchion gwaed yn cael ei gadw gan reolwyr y wardiau.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion, megis matresi lleddfu pwysau, cymhorthion symudedd, comodau a pheiriannau monitro arwyddion hanfodol i fywyd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno fod y cyfarpar cywir ar gael iddynt helpu gyda gofal cleifion.

Gwelsom fod labeli ar gyfarpar i ddangos pryd roedd angen eu gwasanaethu a gwelwyd bod y rhain yn gyfredol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom aelodau o'r staff yn glanhau'r cyfarpar a rennir ar ôl ei ddefnyddio er mwyn atal achosion o groes-heintio.

Dywedwyd wrthym nad oedd yr olchfa wedi bod yn gweithio ers wythnos cyn ein hymweliad a'u bod yn aros iddi gael ei thrwsio. Yn y cyfamser, roedd y staff yn

defnyddio bagiau gwastraff clinigol er mwyn gwaredu gwastraff.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr olchfa'n cael ei thrwsio fel mater o flaenoriaeth.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi a'u dogfennu yn gywir yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaethau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y broses o adnabod cleifion yn cael ei chadarnhau bob tro cyn rhoi meddyginiaeth.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwirio hunaniaeth y cleifion cyn rhoi meddyginiaeth.

Roedd cyffuriau yn cael eu storio a'u paratoi mewn ystafell wedi'i chloi. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y clo ar ddrws yr ystafell gyffuriau wedi torri. Uwchgyfeiriwyd hyn i reolwyr y wardiau a roddodd gyfarwyddyd i'r adran ystadau ddatrys hyn ar unwaith. Cafodd y clo ei newid ac roedd yn gweithio yn ystod diwrnod cyntaf ein harolygiad.

Nodwyd bod y polisi rheoli meddyginiaethau yn ddigon cadarn. Roedd tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n briodol bob dydd. Gwelwyd bod cyffuriau a reolir yn cael eu storio a'u rhoi yn briodol ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd y siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan. Gwelsom fod manylion y cleifion yn cael eu dangos ar bob siart, ond nid oedd hyn yn gyson drwy'r siart bob amser.

Roedd gan y ward fferylllydd dynodedig ac roedd modd i'r staff gael gafael ar feddyginiaeth gan reolwr y safle y tu allan i oriau. Nododd y staff eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar feddyginiaethau a'u bod yn cael eu cefnogi gan staff y fferyllfa. Nid oedd ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siart meddyginiaethau ond roedd hwn wedi'i ddogfennu yn y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Rydym yn argymhell y dylai'r ward sicrhau bod yr angen am ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siart meddyginiaethau.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion, megis matresi lleddfu pwysau, cymhorthion symudedd, comodau a pheiriannau monitro arwyddion hanfodol i fywyd. Roedd y staff y gwnaethom

siarad â nhw yn cytuno fod y cyfarpar cywir ar gael iddynt helpu gyda gofal cleifion.

Gwelsom fod labeli ar gyfarpar i ddangos pryd roedd angen eu gwasanaethu a gwelwyd bod y rhain yn gyfredol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom aelodau o'r staff yn glanhau'r cyfarpar a rennir ar ôl ei ddefnyddio er mwyn atal achosion o groesheintio.

Maeth a hydradu

Roedd y bwyd a'r diodydd a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb rithro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwyyo yn dda. Roedd gan y cleifion a oedd ar ddietau meddal system ddyddiadur ar waith er mwyn peidio â chael yr un pryd o fwyd fwy nag unwaith y dydd.

Cofnodion cleifion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn gyfredol a bod y nodiadau'n dangos tystiolaeth fod y gofal yn cael ei asesu a'i werthuso. Gwelsom ddogfennaeth briodol mewn perthynas â'r gofal a ddarperir. Roedd y ddogfennaeth yn glir, yn rhesymegol ac o safon dda ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau risg wedi'u cwblhau ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn ystafell wedi'i chloi ac ar gael i holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y staff yn anelu at ddarparu gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am leoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion amrywiol y cleifion ac yn ymatebol iddynt.

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaethau yn cael eu trefnu i sicrhau bod modd symud trwy lwybrau. Gwelsom fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r timau amllddisgyblaethol cyn rhyddhau cleifion.

Gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff a oedd yn cynnwys y broses trosglwyddo rhwng shifftiau ac enghreifftiau o ddsbarthu gwybodaeth i bob rhan o'r tîm.

Roedd gan y ward glerc gweinyddol dynodedig a oedd yn helpu ym mhob agwedd ar gymorth dogfennaeth gan gynnwys dogfennaeth rhyddhau cleifion. Roedd y staff yn sicrhau bod teuluoedd yn rhan o'r broses gynllunio ac yn hwyluso cyfathrebu â'r tîm ehangach.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau clinigol yr ysbyty er mwyn eu cefnogi wrth ymarfer.

Gwelsom fod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion digidol i'w gweld yn glir, a oedd yn cynnwys blaenlythrennau a chyfenw'r cleifion, ynghyd â symbolau i ddangos gwybodaeth am statws pob claf er mwyn helpu aelodau'r tîm amllddisgyblaethol i gyfathrebu â'i gilydd. Gellir diffodd y byrddau hyn pan na fyddant yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y wybodaeth yn parhau i fod yn gyfrinachol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'r amgylchedd gwaith a'r cymorth a roddwyd iddynt ar y cyfan.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar y ddwy ward.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff ar y ddwy ward. Gwelsom fod cyfraddau cwblhau arfarniadau aelodau o staff dros 95%

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom feddygon, staff nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, staff cymorth gofal iechyd, staff gweinyddol, staff arlwyo/gweini a staff domestig yn gweithio ar y ddwy ward.

Yn ystod ein harolygiad, roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau i'w gweld yn briodol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion. Dywedwyd wrthym mai bach iawn o swyddi gwag oedd ar gael a bod tîm o aelodau staff y ward bron yn llawn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod defnydd mawr yn cael ei wneud o staff banc ac asiantaeth i gyflenwi unrhyw ddiffygion nad oedd modd i aelodau o dîm y ward eu cyflenwi.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei ddefnydd o staff asiantaeth a banc.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus ynghylch pwy i roi gwybod am bryderon a phryd.

Gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. Roedd cydymffurfiaeth yn dda ar gyfer mwyafrif y pynciau ac roedd dros 85% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ar y cyfan.

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a oedd yn dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Roedd gwybodaeth ar y wardiau i roi gwybod i'r cleifion a'r ymwelwyr sut i wneud cwyn.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd. Gwelsom fod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion digidol a allai fod yn ddiennw a chael eu cuddio at ddibenion cyfrinachedd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y ward er mwyn monitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, fferyllwyr, ffisiotherapyddion a deietegwyr lleol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod ein taith gychwynnol o'r ward, gwelsom fod y clo ar ddrws yr ystafell storio cyffuriau wedi torri.	Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai pobl heb awdurdod gael gafael ar gyffuriau.	Uwchgyfeiriwyd hyn i reolwyr y ward ar unwaith.	Hysbysodd rheolwr y ward yr adran ystadau ar unwaith. Cafodd y clo ei newid ac roedd yr ystafell yn ddiogel.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Cwm Rhondda, Llwyn-y-pia

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Ebrill 2024


Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
----------------------------	-----------------	-----------------------------------	------------------	----------

Canfyddiadau - System galw am nyrs a system larwm brys

Gwnaethom edrych ar y systemau a oedd ar waith i gleifion rybuddio nyrsys a gwelsom nad oedd y system cloch alw wedi bod yn gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi system gludadwy dros dro ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y cleifion i gyd yn gallu defnyddio'r rhain a gwelsom nad oeddent yn addas at y diben. Ni welsom ddigon o dystiolaeth i gefnogi bod nyrsys yn cadw golwg reolaidd ar gleifion a oedd heb gloch alw am nyrs cludadwy.

Felly, ni allem fod yn sicr y gallai cleifion rybuddio staff pan oedd angen cymorth arnynt neu y gallai staff rybuddio'i gilydd mewn achos o argyfwng.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:	Safon - Diogel			
<ul style="list-style-type: none">Rhoi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod system cloch alw yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.Yn y cyfamser, rhoi manylion i AGIC o system gadarn lle y cedwir golwg ar gleifion yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn		<p>Trafod â'r rheolwr ystadau gweithredol sydd wedi cadarnhau bod cyllid wedi'i gytuno arno i newid y system a bod cynllun ar waith i'w newid.</p> <p>Mae asesiad risg ar waith i roi sicrwydd ar leihau'r risg o beidio â diwallu anghenion y claf.</p>	<p>Rheolwr Ystadau Gweithredol</p> <p>Swyddog Ystadau, Ysbyty YCR</p> <p>Rheolwr Ward, Ward B2, Ysbyty YCR</p> <p>Uwch-Nyrs, Ysbyty YCR</p>	<p>Erbyn 30 Mehefin 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau a monitro parhaus hyd nes bydd system cloch alw newydd ar waith.</p>

<p>ddiogel ac y caiff eu hanghenion eu diwallu.</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu manylion i AGIC o system gadarn lle y gall nyrsys rybuddio staff eraill mewn achos o argyfwng. 		 <p>Risk Assesment Ward B2, YCR - nursi</p> <p>Bydd aelodau o staff yn cael larymau diogelwch personol. Bydd y larymau hyn yn sicrhau y byddent yn gallu rhybuddio pob aelod o'r staff yn ardal y ward yn ystod achos o argyfwng.</p>	<p>Nyrs Arwain, Ysbytai Cymunedol</p> <p>Rheolwr Ward, Ward B2, Ysbyty YCR</p> <p>Uwch-Nyrs, Ysbyty YCR</p> <p>Nyrs Arwain, Ysbytai Cymunedol</p>	<p>Erbyn 26 Ebrill 2024.</p>
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Lucie Williams

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio, Gofal Sylfaenol a Chymunedau

Dyddiad: 19 Ebrill 2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward B2, Ysbyty Cwm Rhondda

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd enghreifftiau o adborth gan gleifion neu berthnasau yn cael eu harddangos ar y ward.	Dylai'r bwrdd iechyd arddangos adborth y cleifion ac unrhyw welliannau a wnaed o ganlyniad i adborth, fel bwrdd "dywedoch chi, gwnaethom ni".	<p>Mae'r ward bellach yn arddangos byrddau "dywedoch chi, gwnaethom ni" yn y brif dderbynfa i ddarparu adborth.</p> <p> Ward B2 "you said, we did" board.docx</p> <p>Mae gan y ward flychau adborth cleifion Coch er mwyn i gleifion/perthnasau ddarparu adborth.</p> <p> Patient feedback boxes.docx</p>	Gemma Price-Davies, Uwch-nyrs YCR	Wedi'i gwblhau Ebrill 2024

<p>Nid oedd polisi cwynion Gweithio i Wella y GIG i'w gweld ar y ward.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y polisi Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar y ward.</p>	<p>Bydd polisi cwynion 'Gweithio i wella' yn cael ei arddangos ar Ward B2 yn ardal y brif dderbynfa ar y bwrdd gwybodaeth i berthnasau.</p>	<p>Beth Preedy, Rheolwr Ward B2</p>	<p>I'w gwblhau erbyn 21.06.2024</p>
<p>Nid oedd manylion adnabod y cleifion yn cael eu gwirio yn rheolaidd cyn rhoi meddyginiaeth. Roedd hyn yn peri risg o roi'r feddyginiaeth anghywir.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwirio hunaniaeth y cleifion cyn rhoi meddyginiaeth.</p>	<p>Mae'r staff wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r polisi i'w ddilyn er mwyn atal gwallau/digwyddiadau drwy grŵp cyfathrebu'r staff a bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y ward ar 03.07.2024.</p> <p>Bydd rheolwr y ward hefyd yn archwilio cydymffurfiaeth archwilio drwy hapwiriadau dros gyfnod o dri mis.</p>	<p>Beth Preedy, Rheolwr Ward B2</p>	<p>03.07.2024</p> <p>31.08.2024</p>

<p>Gwnaethom nodi nad oedd yr olchfa wedi bod yn gweithio ers wythnos cyn ein hymweliad ac roedd bagiau gwastraff clinigol yn cael eu defnyddio i waredu gwastraff yn y cyfamser.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr olchfa'n cael ei thrwsio fel mater o flaenoriaeth.</p>	<p>Rhoddwyd gwybod i'r adran ystadau ar 13.03.2024</p> <p>Cafodd ei thrwsio ar 08.04.2024</p> <p>Torrodd i lawr eto ar 11.04.2024, cafodd ei thrwsio'r diwrnod nesaf ar 12.04.2024 ac mae'r olchfa yn parhau i weithio.</p>	<p>Adran Ystadau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 2024</p>
<p>Gwelsom nad oedd digon o stoc yn y blwch sepsis brys.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd roi system ar waith lle y caiff blychau argyfwng eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau bod ganddynt y cyfarpar priodol mewn achos o argyfwng.</p>	<p>Mae'r staff nawr yn gwirio'r blwch bob nos i sicrhau bod y blwch wedi'i stocio'n briodol a bod pob eitem yn gyfredol. Dylai'r staff lofnodi a dyddio'r ffurflen wirio sydd ar y bwrdd yn yr ystafell drin.</p> <p>Bydd rheolwr y ward hefyd yn archwilio cydymffurfiaeth archwilio drwy hapwiriadau dros gyfnod o dri mis.</p>	<p>Beth Preedy, Rheolwr Ward B2</p>	<p>Cwblhawyd Ebrill 2024</p> <p>31.08.2024</p>

Dywedwyd wrthym fod nifer uchel o aelodau o staff. Fodd bynnag, roedd y ward yn defnyddio nifer uchel o staff banc ac asiantaeth.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei ddefnydd o staff asiantaeth a banc.

Caiff y trefniadau staffio eu hadolygu'n fisol gan yr uwch-nyrs.

Ar hyn o bryd, ceir 2.64 o swyddi CALL am nyrsys cofrestredig:

Recriwtiwyd 2.0 o fyfyrwyr CALL i swyddi

Roedd 0.64 CALL yn cael eu hysbysebu ar swydd dreigl ar broses recriwtio Trac

Bydd swydd wag 0.48 Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd CALL cyfredol yn cael ei hysbysu ar broses recriwtio Trac

Bydd yr uwch-nyrs yn sicrhau bod y broses banc/asiantaeth yn cael ei dilyn yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd.

Edrychir ar y cymysgedd sgiliau drwy broses cymorth y

Gemma Price-Davies, Uwch-nyrs YCR

Wedi'i gwblhau

Rhestr Gweithio bob amser er mwyn sicrhau bod cymysgedd priodol a diogel o sgiliau bob amser.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Gemma Price-Davies

Swydd: Uwch-Nyrs Band 8a

Dyddiad: 17.06.2024